CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 11 Mai 2021 am 7 yn yr hwyr a gynhaliwyd yn rhithiol drwy ddefnyddio offer Zoom.		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Casi Roberts	Nerys John	
Dafydd Huws	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Emyr Gareth	
	Aelodau'r Cyhoedd	
	Gareth Griffiths – Cynhorydd Sir	
Swyddog Ariannol: Wynne Barton	Jo Powell	
1.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
	Agorwyd y CYfarfod gan Iestyn Harris o fydd yn y llywyddu oherwydd bod Iwasn Huws y Caeirydd Etholedig wedi ymddiheuro.	
2.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
	Etholwyd Iwan Hws yn Gadeirydd. Cyflwynwyd mesur newydd fel Rheol Sefydlog sef bod cyfnod Cadeirydd yn 5 mlynedd a bydd Cadeirydd yn cael ei ethol am 5 mynedd yn olynnol.	
3.0	**YMDDIHEURIADAU**	
3.1	Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Llŷr Evans, Lliwen Griffith-Williams, ac Iwan Huws.	
4.0	**DERBYN CWESTIYNAU ODDI WRTH AELODAU O'R CYHOEDD**	
	Ni chafwyd gwestiwn oddi wrth y llawr.	
5.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
	Eglurodd y CYnghorydd Iestyn Harris bod angen ethol is-gadeirydd. Roedd y Cynghorydd Dan Williams yn barod I ymgymryd a'r swydd am y tro hyd nes byddai cyfyngiadau y pandemig wedi eu codi.	
6.0	**ANERCHIAD Y CYN-GADEIRYDD**	
	Nid oedd y CYnghorydd Iwan Huws yn bresennol, tybir bydd adroddiad yn cael ei roi yng nghyfarfod misol Mehefin.	
7.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
7.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** - mae'r Cynghorydd Iestyn Harris ar hyn o bryd yn cynrhychioli'r Cyngor Cymuned ac mae yn gwneud hynny am gyfnod o 4 mlynedd. Mae'r cyfnod hwn yn dod I ben yn mis Medi. Bydd y mater yma yn cael ei drafod pryd hynny.	
7.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** – etholwyd Llŷr Efans fel cynrychiolydd.	
7.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru gan Iestyn Harris a Nerys John; byddant yn mynychu'r cyfarfodydd rhanbarth pam mae angen.	
8.0	**ETHOL AELODAU A'R IS-BWYLLGORAU**	
8.1	**Llwybrau a Lon Las** - Dewiswyd Nerys John, Llŷr Evans, Emyr Gareth a Dafydd Huws ar yr Is-Bwyllgor	

8.2	**Mynwent, Maes Parcio, Safle Moria** - Dewiswyd Casi Roberts, LLiwedd Griffith-Williams ac Eifion Williams	
8.3	**Priffyrdd, Meinciau a Cysgodfannau –** Dewiswyd Daniel Williams, Eifion Williams, Emyr Gareth a Cynog Prys.	
8.4	**Prosiectau Cymunedol** - Dewiswyd - Nerys John, Casi Roberts ac Lliwen Griffith-Williams.	
8.5	**Gwefan –** Dewiswyd Casi Roberts, a Emyr Gareth.	
8.6	**Cyllid a Chyflogaeth –** Dewiswyd Daniel Williams, Iestyn Harris a Iwan Huws	
8.7	**Polisïau -** Dewiswyd Iestyn Harris, Cynog Prys ac Iwan Huws	
8.8	**Neuadd Goffa a Cloc –** Dewiswyd Daniel Williams, Casi Roberts, Dafydd Huws, Llŷr Evans a Iestyn Harris	
9.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
	Penderfynwyd parhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol gyda gwyliau ym Mis Awst.	
10.0	**SEDDI GWAG**	
	Mae dwy sedd wag ar y Cyngor. Bwriad symud ymlaen a'r broses I'w llewni. Penderfynwyd bydd yr aelodau newydd yn eistedd ar is-bwylgorau lle mae eu hangen. Fel arfer bydd aelodau'r is-bwyllgorau yn cael eu dwis ar ddechrau blwyddyn newydd y CYngor.	
11.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
	Cadarnhawyd bod Eluned Fôn Jones o Gyngor Gwynedd wedi ei hapwyntio fel archwiliwr mewnol. Bydd llythyr apwyntiad gyda manylder yr hyn sydd ei angen yn cael ei anfon ati.	
12.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
12.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2020 - 31/03/202i gan y Swyddog Ariannol. Cynigwyd ac eiliwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor.	
12.2	Gan bod y CYngor wedi cymeradwyo'r adroddiad (eitem 12.1) bydd angen i Gadeirydd y Noson eu harwyddo i ddatgan hynny sef bod y cyfrifyddu a'r lywodraethu blynyddol yn gywir.	
13.0	**POLISÏAU'R CYNGOR**	
	Fe wnaethpwyd newidiadau i'r canlynol a'u	
13.1	Rheoli Risg	
13.2	Rheolau Sefydlog	
13.3	Rheoliadau Ariannol	
13.4	Rheolaeth Mewnol (llawllyfr)	
13.5	Polisi Amgylcheddol	
13.6	Polisi Diogelu Gwybodaeth	
13.7	Polisi Cyfle Cyfartal	
13.8	Datganiad Preifatrwydd	
13.9	Polisi Rhyddid Gwybodaeth	
13.10	Polisi Recriwtio a Dewi Staff	
13.11	Polisi Terfynu Cyflogaeth	

13.12	Polisi Iaith a Diwylliant	
13.13	Egwyddorion Cymorth Grant	
13.14	Cod Ymddygiad	
14.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYLLID A CHYFLOGAETH**	
	Nid yw'r isbwyllgor wedi cyfarfod hyd yma, bydd yn gwneud yn fuan.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 8 yn yr hwyr o'r gloch.	